CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 15 GORFFENNAF 2009 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD.

Comisiynwyr
Mr P J Wood (Cadeirydd)
Y Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)
Mr J Bader (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth
Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr S Halsall
Mr D Carr
Mrs L Brough
Mrs A Prescott-Bird
Mr R Handscomb

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd. Datganodd y Cadeirydd fuddiant yn eitem 7 ar yr agenda, sef Arolwg Etholiadol Castell-nedd Port Talbot gan fod ei wraig yn Gynghorydd Cymunedol ar gyfer Cymuned Crynant. **Cytunwyd** na fyddai'n rhaid i'r Cadeirydd adael yn ystod y drafodaeth.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 17 MEHEFIN 2009

2.1 Cytunwyd ar y rhain.

3. MATERION YN CODI

Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol

3.1 Roedd y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol (MSFM) gydag Is-adran Noddi'r Comisiwn yn cael ei addasu er mwyn iddo gyd-fynd â'r Comisiwn. Disgwylir y byddai'r MSFM terfynol yn barod i gael ei lofnodi'n fuan.

Cynadleddau

3.2 Bu stondin y Comisiwn yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn llwyddiant. Roedd aelodau o'r farn ei fod wedi bod yn gyfle ardderchog i godi proffil y Comisiwn. Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd â Phrif Weithredwr ac Arweinydd CLlLC a chawsant drafodaeth ddefnyddiol o ran rhoi dealltwriaeth well i'r ddwy ochr o farn y llall.

Fideogynadledda

3.3 Bydd yr Ysgrifennydd yn cyfarfod ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod y dyddiau nesaf er mwyn symud hyn ymlaen.

Llyfryn Arweiniad ar Arolygon Etholiadol

3.4 Bydd argraffiad nesaf y Llyfryn Arweiniad ym mis Medi a byddai hyn yn caniatáu cynnwys unrhyw bwyntiau a fyddai'n deillio o gyfarfod yr Aelodau â Gweinidog

Llywodraeth Leol Cynulliad Cymru yn ogystal â chynnwys unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd eisoes gan y Gweinidog.

Gweithdai Blynyddol

3.5 Roedd hwylusydd wedi'i nodi a'i logi ar gyfer y gweithdai i'w cynnal yn yr hydref.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

3.6 Byddai'r Ysgrifennydd yn ymholi ynghylch datganiadau i'r wasg â swyddogion Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod ei gyfarfod â hwy yn fuan. **Cytunwyd** y byddai datganiad drafft i'r wasg yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Comisiwn.

4. AROLWG CYMUNEDOL BRO MORGANNWG – ADRODDIAD CYNIGION TERFYNOL

4.1 Adroddwyd bod ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn wedi ystyried drafft o adroddiad Cynigion Drafft Bro Morgannwg ac wedi awgrymu newid i'r cynnig. Cytunwyd newid i'r trefniadau etholiadol yn ward Trebefered, Llanilltud Fawr gan y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r newid yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad cynigion Terfynol a allai gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

5. AROLWG CYMUNEDOL BLAENAU GWENT – ADRODDIAD CYNIGION TERFYNOL

5.1 Adroddwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi awgrymu newid i'r ffin arfaethedig rhwng Cwm a Glynebwy, sef cynnwys Hall Street yng Nghwm. **Cytunwyd** mabwysiadu awgrym y Cyngor. **Cytunwyd** y gallai'r adroddiad cynigion Terfynol gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

6. AROLWG ETHOLIADOL CASNEWYDD – YSTYRIAETH O GYNLLUNIAU PELLACH

6.1 Roedd aelodau wedi gofyn am ddau gynllun etholiadol pellach ar gyfer Casnewydd a oedd wedi'u paratoi ar gyfer y cyfarfod. Ystyriwyd bod rhinwedd i Gynllun 6 ond byddai angen rhywfaint o newid arno er mwyn darparu cymhareb well rhwng cynghorwyr ac etholwyr a chydraddoldeb o ran amrywiant o'r cyfartaledd sirol. Byddai'r cynllun 6 diwygiedig yn golygu gostyngiad yn nifer y cynghorwyr o 50 i 45 a gostyngiad yn nifer yr adrannau Etholiadol o 20 i 12. **Cytunwyd** y byddai Cynllun 6 yn cael ei ddiwygio fel y trafodwyd ar gyfer yr Adroddiad Cynigion Drafft.

7. AROLWG ETHOLIADOL SIR DDINBYCH – YSTYRIAETH O GYNLLUNIAU PELLACH

7.1 Ystyriodd aelodau'r ddau gynllun etholiadol pellach ar gyfer Sir Ddinbych. Ystyriwyd bod rhinwedd i Gynllun 4 ond byddai angen rhai newidiadau a gymerir o

Gynllun 5 er mwyn darparu cymarebau cyffredinol gwell rhwng cynghorwyr ac etholwyr a chydraddoldeb o ran amrywiant o'r cyfartaledd sirol. Byddai'r cynllun 4 diwygiedig yn golygu gostyngiad yn nifer y cynghorwyr o 47 i 40 a gostyngiad yn nifer yr adrannau Etholiadol o 30 i 18. **Cytunwyd** diwygio Cynllun 4 fel y trafodwyd ac y byddai'n cael ei fabwysiadu ar gyfer yr Adroddiad Cynigion Drafft.

8. AROLWG ETHOLIADOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT – YSTYRIAETH O GYNLLUNIAU PELLACH

8.1 Ystyriodd aelodau'r ddau gynllun etholiadol pellach ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Y farn oedd mai Cynllun 5 oedd yn darparu'r cymarebau gorau rhwng cynghorwyr ac etholwyr a chydraddoldeb o ran amrywiant o'r cyfartaledd sirol. Byddai'r cynllun 5 diwygiedig yn golygu gostyngiad yn nifer y cynghorwyr o 64 i 58 a gostyngiad yn nifer yr adrannau Etholiadol o 42 i 19. **Cytunwyd** y byddai Cynllun 5 yn cael ei fabwysiadu ar gyfer yr Adroddiad Cynigion Drafft.

9. AROLWG ETHOLIADOL SIR Y FFLINT – YSTYRIAETH O'R CYNRYCHIOLAETHAU A'R CYNLLUNIAU CYCHWYNNOL

9.1 Nododd y Comisiwn y cynrychiolaethau cychwynnol a dderbyniwyd a'r cynlluniau drafft a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cynhyrchu dau gynllun arall er mwyn gweld a fyddai modd gwella cydraddoldeb democrataidd ymhellach a'r amrywiant o'r gymhareb 1:1,750.

10. CYNNYDD YNGHYLCH AROLYGON

10.1 Cyflwynwyd amlinelliad o'r sefyllfa i Aelodau. Disgwylir y byddai:

- Adroddiadau Cynigion Drafft ar gyfer arolygon etholiadol Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Awst a'u cyhoeddi ym mis Medi;
- Cynlluniau ar gyfer arolygon etholiadol Môn a Rhondda Cynon Taf yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Awst;
- Cynlluniau pellach ar gyfer arolwg etholiadol Sir y Fflint yn cael eu cyflwyno i gyfarfod mis Awst;
- Arolwg etholiadol Merthyr Tudful yn cychwyn ar 16 Medi ar yr un amser â'r cyfarfod â'r Cyngor;
- Arolwg etholiadol Caerdydd yn cychwyn ar 21 Gorffennaf ar yr un amser â'r cyfarfod â'r Cyngor;
- Arolwg etholiadol Conwy wedi'i symud ymlaen ar yr amserlen i 24 Medi;
- Arolygon etholiadol Caerffili, Blaenau Gwent a Bro Morgannwg wedi cael eu symud yn ôl ar yr amserlen er mwyn rhoi amser i Gynulliad Cymru lunio Gorchmynion ar gyfer arolygon cymunedol a gwblhawyd yn ddiweddar;
- Nid oedd arolwg Cymunedol Sir Benfro wedi'i dderbyn o hyd oddi wrth y Cyngor er bod rhywfaint o ddata mapio wedi'u derbyn ynghylch hyn.

10.2 Cyhoeddwyd Cynigion Terfynol ar gyfer Arolwg Siroedd wedi'u Cadw Powys a Morgannwg Ganol. Cyhoeddwyd cynigion ar gyfer Arolwg Cymunedol Caerffili a Chynigion Drafft Pellach ar gyfer Arolwg Cymunedol Abertawe.

10.3 **Cytunwyd** cyfeirio'r llythyron cychwynnol ar gyfer yr haen nesaf o arolygon at arweinwyr y cynghorau er mwyn cyflymu'r broses.

10.4 Adroddwyd nad oedd dim wedi'i dderbyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen na Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch yr arolygon cymunedol roeddent i ymgymryd â hwy. Cysylltwyd â'r ddau awdurdod a disgwylid am atebion. **Cytunwyd**, yn ddibynnol ar yr ymatebion a dderbyniwyd gan Dorfaen a Sir Gaerfyrddin, y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ysgrifennu at y ddau awdurdod eto gan eu hysbysu y byddai'r arolygon etholiadol ar gyfer eu hawdurdodau yn mynd yn eu blaenau gan ddefnyddio'r cymunedau a'r wardiau cymunedol presennol os na fyddent wedi cyflwyno rhywbeth i'r Comisiwn mewn pryd.

11. ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNNYDD EI ROI AR WAITH

11.1 Nododd yr Aelodau'r sefyllfa a'r cynnydd o ran y Cynllun Strategol a baratowyd ac a oedd yn barod ar gyfer ymgynghori yn ei gylch yn y gweithdai a drefnwyd i'w cynnal yn yr hydref. Nodwyd y gwnaed cynnydd pellach ynghylch cysylltu â rhanddeiliaid gan fod gan y Comisiwn stondin gwybodaeth yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac roedd un arall ar y gweill ar gyfer cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru ym mis Hydref. O ran mesurau perfformio, roedd y Comisiwn wedi gwneud cais Fuddsoddwyr mewn Pobl ac roedd cyfweliadau ar ddigwydd.

12. ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU – STRATEGAETH GORFFORAETHOL DDRAFFT

12.1 Ystyriodd Aelodau'r strategaeth gorfforaethol ddrafft. Nodasant ei bod yn cynnwys cyfres o fwriadau strategol ond bod angen cynnwys blaenoriaethau a cherrig milltir. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn paratoi ymateb i Asiantaeth yr Amgylchedd gan gynnwys sylwadau'r Aelodau am y strategaeth ddrafft.

13. UNRHYW FATER ARALL

13.1 Nododd Aelodau'r drafft o Adroddiad Blynyddol 2008-09. **Cytunwyd** anfon copïau electronig i Aelodau ar gyfer rhoi adborth am olrhain newidiadau trwy gyfrwng negeseuon e-bost.

14. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

14.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

Dydd Mawrth 11 Awst 2009 am 10.45 am
Dydd Iau 17 Medi 2009
Dydd Mercher 7 / 8 Hydref 2009 (yn dilyn y Gweithdy)
Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2009 (yn dilyn y Gweithdy)
Dydd Mercher 16 Rhagfyr 2009 (yn dilyn y Gweithdy).